

# Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 25 Ebrill 2022  
Petitions Committee | 25 April 2022

Cyfeirnod: SR22-2618-5

Rhif y ddeiseb: P-06-1269

Teitl y ddeiseb: Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru

Geiriad y ddeiseb: Bob blwyddyn, mae miloedd o bobl yn marw yng Nghymru wedi colli'r cyfle i gael gofal lliniarol a diwedd oes. Roedd y cynllun gofal diwedd oes ar gyfer Cymru yn gweithio i drwsio hyn, ond bydd yn dod i ben ym mis Mawrth. Ar hyn o bryd, nid oes cynllun newydd yn barod i gymryd ei le. Mae arnom angen brys am linell amser, cyllid a staff i gyflawni cynllun newydd. Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan heb unrhyw beth i gymryd ei le. Llofnodwch heddiw a helpwch ni i wneud yn siŵr nad yw teuluoedd yng Nghymru yn cael eu gadael mewn twll.



## 1. Cefndir

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cael y ddeiseb uchod, sef 'Peidiwch â gadael i'r cynllun redeg allan ar gyfer pobl sy'n marw yng Nghymru', gan yr elusen diwedd oes Marie Curie a'r Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor (MND). Mae'r ddeiseb yn galw am **gynllun strategol newydd ar gyfer gofal lliniarol a gofal diwedd oes**.

Mae cynllun cyflawni cyfredol Llywodraeth Cymru ar ofal lliniarol a gofal diwedd oes yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022. Cafodd y cynllun, ynghyd â'r swm o £2 miliwn mewn cyllid i gefnogi'r broses o roi'r cynllun ar waith, ei ymestyn hyd at fis Mawrth 2022 yn sgil y pandemig.

Mae rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i ganolbwyntio ar ofal diwedd oes. Fodd bynnag, mae Marie Curie yn datgan bod Cymru, er gwaethaf yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu gofal i'r rhai sy'n marw, bellach yn mynd i fod heb gynllun ar gyfer y bobl hynny am y tro cyntaf ers degawd, gan nad oes cynllun arall eto wedi'i gyhoeddi.

### Fframwaith Clinigol Cenedlaethol

'Cymru iachach' yw ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Seneddol o ddyfodol hirdymor iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n nodi y bydd Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, a gaiff ei ategu gan ddatganiadau ansawdd, yn llywio datblygiad gwasanaethau clinigol yng Nghymru. Bydd y cynlluniau cyflawni presennol ar gyfer cyflyrau difrifol yn cael eu disodli gan ddatganiadau ansawdd sy'n nodi **bwriad polisi** Llywodraeth Cymru. Bydd y datganiadau ansawdd yn cael eu hategu gan gynlluniau gweithredu'r GIG, a gaiff eu hategu yn eu tro gan rwydweithiau clinigol a Gweithrediaeth y GIG.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ansawdd ar gyfer canser, datganiad ansawdd ar gyfer cyflyrau'r galon, datganiad ansawdd ar gyfer strôc a datganiad ansawdd ar gyfer gofalu am gleifion difrifol wael.

Yn ei llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Deisebau'r Senedd, dywed Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd:

Mae datganiadau ansawdd yn gosod y gweledigaethau ar gyfer gwasanaethau clinigol penodol ac maent wedi'u seilio ar fanylion gwasanaethau manylach. Maent yn disgrifio'r canlyniadau a'r safonau y disgwyliwn eu gweld gan wasanaethau o ansawdd uchel sy'n

canolbwyntio ar gleifion. Bwriedir iddynt hefyd lywio pa nodweddion ansawdd y dylai gwasanaethau clinigol allweddol anelu atynt, yn ogystal â bod o gymorth i lywio'r Cylch Sicrhau Ansawdd lleol.

Yn wahanol i'r cynlluniau cyflawni sydd wedi'u cyhoeddi eisoes, ni fwriedir i ddatganiadau ansawdd bennu sut y dylai gwasanaethau gael eu cynllunio a'u cyflawni. Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yw'r rhai sy'n cynllunio a chyflawni gwasanaethau. Mae datganiadau ansawdd yn nodi ein bwriadau o ran polisi ac yn nodi sut y mae gwasanaethau da yn edrych. Maent yn gosod disgwyliadau sy'n llawer iawn cliriach er mwyn i'r system ymateb iddynt.

## 2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Mae llythyr y Gweinidog Iechyd at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau **yn cadarnhau y bydd datganiad ansawdd ar gyfer gofal diwedd oes yn cael ei gyhoeddi**. Dywed y Gweinidog: 'Mae'r Datganiad Ansawdd Gofal Diwedd Oes yn mynd rhagddo'n dda ac mae'n cael ei gyd-gynhyrchu gan rhanddeiliaid statudol a gwirfoddol. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd proses o ymgynghori ar y datganiad ansawdd gyda rhanddeiliaid ehangach yn cael ei chynnal a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod tymor yr haf.'

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.